# Y Pwyllgor Deisebau

## PET(3)-04-09 Papur 1 : 2 Mawrth 2009

### Deisebau newydd

Mae’r papur hwn yn rhoi gwybodaeth gefndirol gryno ar bob deiseb y bydd y pwyllgor yn rhoi ystyriaeth gychwynnol iddi ar 2 Mawrth 2009.

### (i) P-03-187 Diddymu’r tollau ar ddwy bont Hafren

### Geiriad y ddeisebu

'Rydym ni, sydd wedi llofnodi isod, yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i wneud pob dim posibl ar gyfer pobl Cymru i ymchwilio a chymryd unrhyw gamau sy’n angenrheidiol i ddiddymu’r tollau ar ddwy bont Hafren.’

### Cefndir

Cynigwyd y ddeiseb hon gan John Warman a chasglwyd 22 o lofnodion.

### Gwybodaeth bellach (a ddarparwyd gan y deisebwr)

'Bûm yn ymgyrchu dros ddiddymu’r tollau hyn am sawl blwyddyn a sefydlais yr ymgyrch yn erbyn y tollau ar bontydd Hafren.

Nid yw’r tollau a godir ar ddwy bont Hafren yn ddim mwy na threth am ddod i mewn i Gymru. Cynigiaf fod y mwyafrif o bobl Cymru eisiau i’r tollau hyn gael eu diddymu gan eu bod yn rhwystro twf economaidd yng Nghymru.

Mae’r Alban wedi diddymu’r tollau ar ei phontydd a dylai Cymru wneud yr un peth.

Ymunwch â mi a fy nghefnogi ynghylch y dreth annheg hon, ac mae croeso hefyd i’n cymdogion yn Lloegr y mae’r dreth hon yn effeithio arnynt ymuno â’r ymgyrch a chefnogi’r ddeiseb’.

### (ii) P-03-197 Achub y Vulcan

### Geiriad y ddeiseb

'Mae Gwesty’r Vulcan yn Stryd Adam, a adeiladwyd yn 1853, yn un o dafarndai hynaf Caerdydd. Trefnwyd iddo gael ei ddymchwel ym mis Mehefin 2009 i wneud lle i faes parcio aml-lawr a fflatiau. Helpwch ni i wneud i’r datblygwyr gynnwys y Vulcan yn eu dyluniadau a rhoi stop ar y fandaliaeth ddianghenraid hon o ddiwylliant a hanes Caerdydd.

Mae sôn am symud y dafarn i Amgueddfa Sain Ffagan ond ni ddylai’r Vulcan fod mewn amgueddfa; dylai fod lle y bu am 155 blynedd - yng nghanol Caerdydd.

Rydym ni, sydd wedi llofnodi isod, yn credu bod mwy o werth i Gaerdydd o gael Gwesty’r Vulcan yn sefyll nag o’i gael wedi’i ddymchwel, ac mae mwy o werth iddo o’i gael yn sefyll lle y mae nag o’i gael mewn amgueddfa. Rydym yn annog y datblygwyr i barchu diwylliant a hanes Caerdydd a diogelu’r adeilad hanesyddol hwn ar ei safle presennol.

Rydym hefyd yn annog Cyngor Caerdydd a Llywodraeth Cynulliad Cymru i ddefnyddio’u holl bwerau i sicrhau bod y Vulcan yn aros lle y mae - yng nghanol Caerdydd’.

### Cefndir

Cynigwyd y ddeiseb hon gan Rachel Thomas a chasglwyd 5,000 o lofnodion.

Atodir llythyr gan y deisebwr fel PET(3) 04-09 Papur 1A.